

Comisiwn Eisteddfod T 2021
Urdd Gobaith Cymru

YMGOM Bl. 6 ac Iau
Sgript sy'n addas i'w pherfformio ar Zoom.

PARATOI PARTI

Awdur: Anni Llŷn

SEFYLLFA:

Deialog rhwng pedwar/pedair ffrind, i gyd o oedran bl.6 ac iau. Mae Sam eisiau trefnu Parti Rhithiol i godi calon ei ffrindiau yn ei dosbarth/ddosbarth ac felly mae hi/o wedi galw ei ffrindiau agosaf er mwyn treialu gemau i'w cynnal yn y parti.

CYMERIADAU

SAM – Arweinydd y grŵp. Ei syniad o/hi yw cynnal y parti.

ALEX – Y callaf o'r criw.

EIRIAN – Dim llawer o frys ar Eirian byth! Eitha *laid back*.

DONI – Clown y criw, mwynhau ei fwyd!!

***NODYN AM IAITH** – Mae gennych hawl i addasu yr iaith ôl eich tafoidaith/acenion.

* * * * *

Gwelwn bedair sgrîn. Mae tair yn wag ac mae Sam yn un, mae'n aros i'r lleill ddod i'r golwg.

Mae Sam yn dechrau mynd yn ddiamynedd gan edrych ar ei horiawr/oriawr bob hyn a hyn.

SAM: Dewch yn eich blaenau!!

Yn sydyn, mae ALEX yn ymddangos ar frys gyda sosban (neu unrhyw offer cegin) ar ei ben/phen.

O fewn eiliad mae EIRIAN yn cyrraedd ei sedd ar frys gyda rhyw fath o fag ar ei ben/phen.

ALEX: *(Yn chwerthin)* Lle ges di hwnna?!

EIRIAN: Un mam 'dio!

SAM: Wnaethoch chi gymryd eich amser, yn do?!

EIRIAN: Lle mae Doni 'ta?

Clywn DONI'n gweiddi o'r pellter heb ei weld eto.

DONI: (o'r golwg) Dyma fi!

Mae DONI'n cyrraedd ei sedd gyda brechdan yn ei law/llaw. Mae'n cymryd tamaid ar ôl eistedd.

SAM: Be 'di hwnna?

DONI: Brechdan!

ALEX: Nes di ddim nôl dim byd i roi ar dy ben?

DONI: Wel, ro'n i am nôl sosban fel chdi ond tra oni'n y gegin, es i'n llwglyd... felly ges i frechdan!

EIRIAN: Dwi'm yn coelio bo' chdi wedi cael amser i wneud brechdan!

SAM: Wnaethoch chi i gyd gymryd lot gormod o amser.

ALEX: O sori... o'dd Anti Alwen ar ffôn efo dad felly o'dd rhaid fi ddeud helo a bla bla bla...

EIRIAN: A nes i fynd yr holl ffordd i llofft mam i nôl hwn.

SAM: Ti'n byw mewn byngalo Eirian... dodd gen ti ddim hyd yn oed grisia i ddringo.

Mae EIRIAN yn codi ei hysgwyddau/ysgwyddau heb esgus arall i'w gynnig.

DONI: Felly, yn amlwg doedd y gêm yna ddim wedi gweithio.

ALEX: Bydda'r parti'n mynd mlaen am lot rhy hir.

SAM: Mae'n iawn... nawn ni roi amser penodol... 10 eiliad?

Mae DONI yn rhoi ei frechdan i lawr.

DONI: Iawn, tria fo rwan... cyfra lawr o ddeg a wna i weld be alla i gasglu mewn deg eiliad.

EIRIAN: Ar eich marciau

ALEX: Barod!

SAM: Ewch! 10, 9, 8...

EIRIAN: Ti'n meddwl y bydd o'n mynd i nôl rhywbeth i'w roi ar ei ben fel mae o fod?

SAM: Nafydd siwr... mynd i nôl r'wbath arall i fyta, fetia i. 3, 2, 1!!

Mae DONI yn glanio'n nôl o flaen y sgrin gyda llond ei hafflau o greision a siocled ac un ffrwyth.

ALEX: 10 eiliad yn hen ddigon o amser ddeuda i!

EIRIAN: Bechod nad ydan ni efo'n gilydd go iawn de... i fi gael 'chydig o'r siocled 'na gen ti Doni!

Mae DONI'n gwenu ac yn dod yn agos at ei gamra i ddangos siocled yn cael ei stwffio i'w geg. Mae pawb yn chwerthin er eu bod i gyd, mewn gwirnedd, yn gweld chwith o beidio gallu dod at ei gilydd.

SAM: Wel, gan nad ydan ni'n cael dod at ein gilydd, dwi eisiau gnweud yn siwr fod y dobarth yn cael y Parti Rhithiol gorau erioed. Felly mae'n rhaid i'r gemau fod yn hwyl, i godi calon pawb!

ALEX: Mi fyddan nhw siwr! Sgen ti syniadau eraill?

SAM: Oni'n meddwl jysd gwneud sialens Wynebaw Gwirion ac un ohona ni'n dewis y gorau pob tro!

EIRIAN: Syniad da... ond mae'n rhaid rhoi sefyllfa!

DONI: Be ti'n feddwl?

EIRIAN: Rhywbeth fel... Dangoswch eich ymateb wrth weld Gareth Bale yn cerdded mewn i'r tŷ.

Does neb yn ymateb.

EIRIAN: Wel c'mon... Dangoswch eich ymateb wrth weld Garthe Bale yn cerdded mewn i'r tŷ!

Mae'r tri arall yn ymateb.

ALEX: Gen i un... Dangoswch eich ymateb wrth fwyta brechdan ysgewyll, tiwna a chaws gafr!

Mae SAM ac EIRIAN yn ymateb fel petai'r frechdan yn ffiائد ond mae DONI'n ymateb fel pe tai'n flasus.

ALEX: Doni... be ti'n neud?

DONI: Ysgewyll, iym! Tiwna, iym! Caws Gafr, iym!

Mae nhw'n chwerthin/rowlio'u llygaid.

SAM: lawn. Dangoswch eich ymateb pan fydd hyn i gyd drosodd a gawn ni barti go iawn!

Ymateb.

ALEX: Mi *gawn* ni barti go iawn rhyw ddiwrnod. Ond tan hynny... (*gan edrych yn ddireidus*) Ras i nôl papur tŷ bach! Ewch!!

Mae nhw i gyd yn gadael y sgriniau'n wag, ar ras.

Y DIWEDD.